


Llyfryn Dewisiadau TGAU

GCSE Options Booklet

2026-27



Cynnwys - Contents

| | |
|--|----------------|
| Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth / Welsh Language and Literature | 6 / 8 |
| Saesneg Iaith a Llenyddiaeth / English Language and Literature | 10 / 11 |
| Mathemateg a Rhifedd / Mathematics and Numeracy | 12 / 13 |
| Gwyddoniaeth / Science | 14 / 15 |
| DT: Dylunio Cynnyrch / DT: Product Design | 16 / 17 |
| Tecstilau / Textiles | 18 / 19 |
| Celf / Art | 20 / 21 |
| Celf a Dylunio 3D / 3D Art and Design | 22 / 23 |
| Ffotograffiaeth / Photography | 24 / 25 |
| Cyfrifiadureg / Computer Science | 26 / 27 |
| Hanes / History | 28 / 29 |
| Daearyddiaeth / Geography | 30 / 31 |
| Astudiaethau Crefyddol / Religious Studies | 32 / 33 |
| Ffrangeg a Sbaeneg / French and Spanish | 34 / 35 |
| Cerdd / Music | 36 / 37 |
| Drama / Drama | 38 / 39 |
| Astudiaethau Cyfryngau / Media Studies | 40 / 41 |
| Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi / Sport and Coaching Principles | 42 / 43 |
| Addysg Gorfforol / Physical Education | 44 / 45 |
| Electroneg / Electronics | 46 / 47 |
| Iechyd a Gofal, a Gofal Plant / Health and Social Care, and Childcare | 48 / 49 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus / Public Services | 50 / 51 |
| Arlwyo a Lletygarwch / Hospitality and Catering | 52 / 53 |
| VTCT Lefel 2 (Sgiliau Gwallt a Harddwch) / VTCT Level 2 (Hair and Beauty Skills) | 54 / 55 |
| Tirlunio ac Eco Adeiladau / Landscaping and Eco Construction | 56 / 57 |
| Addysg Awyr Agored / Learning in the Outdoors | 58 / 59 |
| Datblygiad a Llesiant Personol / Personal Growth and Wellbeing | 60 / 61 |
| Bagloriaeth Cymru / The Welsh Baccalaureate | 62 / 63 |
| Cwestiynau i'w hystyried gan y disgybl / Questions for consideration by the pupil | 64 / 65 |

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Mae'r amser yn agosau pan fydd gofyn i'ch plentyn ddewis pynciau i'w hastudio o fis Medi 2026 a fydd yn arwain at arholiadau allanol yn 2027 a 2028. Byddwch yn ymwybodol bod newidiadau ar waith ym myd addysg ac felly bydd nifer o'r cyrsiau TGAU sydd ar gael o fis Medi 2026 ymlaen yn rhai newydd, tra bod pynciau eraill ddim yn newid tan fis Medi 2027. Mae'r disgrifiadau pwnc sydd yn y llyfryn hwn yn gywir ac felly'n cyflwyno pob pwnc fel y bydd e ar gyfer eich plentyn chi. Am fwy o fanylion, gofynnwch i staff yn y noson rieni neu ewch i wefan CBAC.

Bydd cwrs addysg eich plentyn yn cynnwys:

i. Pynciau Craidd

Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Rhifedd, Gwyddoniaeth Ddwbl, ac Astudiaethau Cyffredinol (Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Gyrfaoedd, Addysg Grefyddol, Ymarfer Corff/Chwaraeon).

Bydd y disgyblion hefyd yn cyflawni gofynion Diploma Cenedlaethol y Fagloriaeth Gymreig ym Mlwyddyn 10 ac 11.

ii. Pynciau Dewisol

Bydd angen nodi tri phwnc dewisol yn y lle cyntaf.

Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymgais i ymateb i ddewisiadau pob disgybl ond weithiau ni fydd hynny'n bosibl. Bryd hynny byddwn yn trafod gyda'ch plentyn ac yn cynnig cyngor penodol. Byddwn bob amser yn cysylltu â chi fel rhieni i gadarnhau y dewis terfynol.

Disgwylir i'r disgyblion gwblhau eu dewisiadau erbyn Dydd Sul, 15 Mawrth 2026.

Ceir canllawiau ynglyn â dewis ar ddiwedd y llyfryn hwn ond y peth pwysig, am y tro, yw ystyried y wybodaeth ar bob testun a thrafod hynny gyda'ch plentyn. Ceisiwch feddwl ar hyd llinellau cwrwicwlwm cytbwys ac eang sy'n cynnig amrywiaeth o brofiadau i'ch plentyn, yn hytrach na dewis llwybr cul gyda gormod o destunau tebyg.

Yn gywir,



Sara Thomas (Pennaeth Gweithredol)

Dear Parents/Guardians,

The time is approaching when your child will be asked to choose subjects to be studied from September 2026 and which will lead to external examinations in 2027 and 2028. You will be aware of the changes being implemented in education, meaning that many of the courses on offer to your child from September 2026 are new, while other subjects will not change their courses until September 2027. The courses described in this booklet are accurate and present each course as it will be delivered to your child. For further details, please ask staff at parents' evening or consult the WJEC website.

Your child's curriculum will include:

i. Core Subjects

Welsh, English, Maths and Numeracy, Double Science, and General Studies (Personal and Social Development, Careers, Religious Education and PE/Games).

Pupils will also fulfil the requirements of the National Welsh Baccalaureate Diploma in Year 10 and 11.

ii. Optional Subjects

Your child will need to choose three optional subjects in the first instance.

The school will make every effort to try and accommodate your child's preferences, but this may not always be possible. We will discuss such situations with your child should the need arise, and offer specific advice. We will always consult with you as parents to confirm the final choice.

The pupils will be expected to complete their choices by Sunday, 15 March 2026.

We also include some guidelines for making choices at the end of this booklet, but the important thing, for the present, is to consider the information on every subject and to discuss it with your child. Try and think along the lines of a broad and balanced curriculum, which will give your child a variety of experiences, rather than following a narrow path with too many subjects in the same curriculum area.

Yours sincerely,



Sara Thomas (Acting Headteacher)

TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg

Cymhwyster unedol, di-haen yw hwn

Mae'r cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn cefnogi dysgwyr i allu:

- Gwerthfawrogi sut mae iaith yn ein cysylltu â'r byd o'n cwmpas trwy ymgysylltu â thestunau llafar, gweledol ac ysgrifenedig o amrywiaeth o gyfnodau, lleoedd a diwylliannau
- Darllen, gwyllo a gwranddo ar amrywiaeth o destunau llafar ac ysgrifenedig, gan ystyried sut mae iaith, cywair ac arddull yn cyfleu ystyr
- Deall arwyddocâd pwrpas, cynulleidfa, cyfrwng a chyd-destun wrth gyfathrebu, mynegi, deall ac ymateb i iaith
- Mynegi eu hunain mewn modd eglur, cywir, rhugl a chreadigol wrth siarad ac ysgrifennu Cymraeg
- Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o eirfa, gramadeg a defnydd o'r Gymraeg
- Mae'n rhaid i'r cymhwyster hefyd gael ei ddylunio i hybu profiad cadarnhaol a pherthnasol o'r Gymraeg a diwylliannau Cymraeg a Chymreig.

Sut mae'r cwrs yn cael ei asesu ?

| | |
|--|----------------------------------|
| Uned 1: Naratif Arholiad Ysgrifenedig: (1 awr 30 munud) 30% o'r cymhwyster gradd unigol (15% o'r cymhwyster dwyradd) Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC | 60 marc |
| Bydd dysgwyr yn astudio un nofel o ddewis o chwech. Bydd dysgwyr yn ateb cwestiynau sydd wedi'u strwythuro ar y testun y maent wedi'i astudio. | |
| Uned 2: Hunaniaeth Asesiad di-arholiad: (5 awr a 15 munud) Trafodaeth Grŵp 20% o'r cymhwyster gradd unigol (10% o'r cymhwyster dwyradd) Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC | 40 marc |
| Bydd dysgwyr yn astudio testun(au) gweledol a'u hasesu mewn grwpiau o 3. | |
| Uned 3: Agweddau Asesiad di-arholiad: (12 awr a 35 munud) Tasg Ysgrifenedig a Thasg Lafar Unigol 20% o'r cymhwyster gradd unigol (10% o'r cymhwyster dwyradd) Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC | 60 marc |
| Caiff y dysgwyr eu hasesu ar ddwy dasg: Tasg 1 – cerddi – gwerthfawrogi a chymharu Tasg 2 – cyflwyniad unigol ar sail ymchwil | 30 marc 30 marc |

| Cymhwyster Gradd Unigol | Cymhwyster Dwyradd |
|--|---|
| <p>Uned 4a: Cysylltiadau leithyddol (Gradd Unigol) Arholiad Ysgrifenedig: (1 awr 30 munud) 30% o'r cymhwyster Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC</p> <p>60 marc</p> | <p>Uned 4b: Cysylltiadau leithyddol (Dwyradd) Arholiad Ysgrifenedig: (2 awr) 22.5% o'r cymhwyster Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC</p> <p>90 marc</p> |
| <p>Darllen – asesir y darllen trwy gyfres o gwestiynau strwythuredig. Bydd yr adran hon yn cynnwys tasg golygu testun a fydd yn canolbwyntio ar ddeall testun ar lefel gair, brawddeg a thestun. Ysgrifennu – un dasg ysgrifennu o ddewis o ddau.</p> | <p>Darllen - asesir y darllen trwy gyfres o gwestiynau strwythuredig. Bydd yr adran hon yn cynnwys tasg golygu testun a fydd yn canolbwyntio ar ddeall testun ar lefel gair, brawddeg a thestun. Ysgrifennu – dwy dasg. Bydd un yn orfodol a'r llall yn ddewis o ddau.</p> |
| | <p>Uned 5: Ymateb a Chreu Asesiad di-arholiad: Tasg 1 – 5 awr a 10 munud Tasg 2 – un wythnos o baratoi a 3 awr i'w gwblhau 20% o'r cymhwyster Trafodaeth Grŵp a Thasg Ysgrifenedig Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC</p> <p>60 marc</p> |
| | <p>Caiff y dysgwyr eu hasesu ar ddwy dasg: Tasg 1: Ymateb a rhyngweithio. Tasg grŵp yn seiliedig ar ddeunyddiau ysgogi print a ddarperir gan CBAC i symblu trafodaeth.</p> <p>40 marc</p> <p>Tasg 2: Ysgrifennu creadigol yn seiliedig ar ddeunyddiau ysgogi tasg 1.</p> <p>20 marc</p> |
| | <p>Uned 6: Cyfleu Ystyr Arholiad Ysgrifenedig: (1 awr 30 munud) 22.5% o'r cymhwyster Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC</p> <p>60 marc</p> |
| | <p>Bydd dysgwyr yn astudio tair stori fer. Bydd dysgwyr yn ateb cwestiynau sydd wedi'u strwythuro ar un o'r straeon byrion. Bydd dysgwyr yn cymharu'r stori fer gyda thestun llenyddol neu anllenyddol.</p> |

Welsh Language and Literature GCSE

[This is a unitised, non-tiered qualification](#)

[The GCSE **Cymraeg Language and Literature** qualification supports learners to be able to:](#)

- Appreciate how language connects us to the world around us through engagement with the spoken word, visual texts and written texts from a range of times, places and cultures
- Read, watch and listen to a range of spoken and written texts, considering how language, register and style convey meaning
- Understand the significance of purpose, audience, medium and context in communicating, expressing, understanding and responding to language
- Express themselves in speaking and writing through clear, accurate, fluent and creative use of Cymraeg
- Develop and apply knowledge and understanding of the vocabulary, grammar and uses of Cymraeg
- The qualification must also be designed to promote a positive and relevant experience of Cymraeg and Welsh Cultures.

[How is the course assessed?](#)

| | |
|--|------------------------------------|
| Unit 1: Narrative Written Examination: (1 hour 30 minutes) 30% of the single award qualification (15% of the double award qualification) Set and marked by WJEC | 60 marks |
| Learners will study one novel from a choice of six. Learners will answer structured questions based on the text they have studied. | |
| Unit 2: Identity Non-examination assessment: (5 hours and 15 minutes) Group Discussion 20% of the single award qualification (10% of the double award qualification) Set by WJEC, marked by the Centre and moderated by WJEC | 40 marks |
| Learners will study visual text(s) and assess them in groups of 3. | |
| Unit 3: Attitudes Non-examination assessment: (12 hours and 35 minutes) Written Task and Individual Oral Task 20% of the single award qualification (10% of the double award qualification) Set by WJEC, marked by the Centre and moderated by WJEC | 60 marks |
| Learners are assessed on two tasks: Task 1 – poems – appreciation and comparison Task 2 – individual research presentation | 30 marks 30 marks |

| Single Award | Double Award |
|--|--|
| <p>Unit 4a: Linguistic Connections (Single Award) Written Examination: (1 hour 30 minutes) 30% of qualification Set and marked by WJEC</p> <p>60 marks</p> | <p>Unit 4b: Linguistic Connections (Double Award) Written Examination: (2 hours) 22.5% of qualification Set and marked by WJEC</p> <p>90 marks</p> |
| <p>Reading – reading is assessed through a series of structured questions. This section will include a text editing task that will focus on understanding text at word, sentence and text level. Writing – one writing task from a choice of two.</p> | <p>Reading – reading is assessed through a series of structured questions. This section will include a text editing task that will focus on understanding text at word, sentence and text level. Writing – two tasks. One will be mandatory and the other from a choice of two.</p> |
| | <p>Unit 5: Respond and Create Non-examination assessment: Task 1 – 5 hours and 10 minutes Task 2 – one week for preparation and 3 hours to complete 20% of qualification Group Discussion and Written Task Set by WJEC, marked by the Centre and moderated by WJEC</p> <p>60 marks</p> |
| | <p>Learners are assessed on two tasks: Task 1: Responding and interacting. A group task based on written and/or visual stimuli provided by WJEC to stimulate discussion.</p> <p>40 marks</p> <p>Task 2: Creative writing based on the stimuli for task 1.</p> <p>20 marks</p> |
| | <p>Unit 6: Communicating Meaning Written Examination: (1 hour 30 minutes) 22.5% of qualification Set and marked by WJEC</p> <p>60 marks</p> |
| | <p>Learners will study three short stories. Learners will answer structured questions on one of the short stories. Learners will compare the short story with a literary or non-literary text.</p> |

TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth (Gwobr Sengl a Dwbl)

Mae'r cymhwyster newydd TGAU mewn iaith a Llenyddiaeth Saesneg yn pwysleisio rôl iaith wrth gysylltu unigolion â'r byd trwy destunau llafar ac ysgrifenedig o wahanol gyfnodau, lleoedd a diwylliannau. Mae dysgwyr yn ymgysylltu ag amrywiaeth o destunau, gan ddadansoddi iaith, arddull a chofnod, wrth ystyried pwrpas, cynulleidfa a chyd-destun.

Mae'r cymhwyster yn meithrin mynegiant rhugl, cywir a chreadigol wrth siarad ac ysgrifennu, ochr yn ochr â datblygu geirfa a sgiliau gramadeg. Wedi'i seilio ar y Cwricwlwm i Gymru, mae ei themâu'n drawsgwricwlaidd, gan ddarparu sylfaen gadarn o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i gefnogi dilyniant i astudio ôl-16.

| Elfen | Disgrifiad | Dull Asesu |
|---------|---------------------|---|
| Uned 1* | Cyd-destun ac ystyr | Arholiad Ysgrifenedig: Hyd 1 awr 30 munud 30% o'r Wobr Sengl, 15% o'r Wobr Dwbl (60 o farciau) |
| Uned 2* | Perthyn | Asesiad mewnol gan athrawon. Hyd 7 awr 20% o'r Wobr Sengl, 10% o'r Wobr Dwbl (60 o farciau) |
| Uned 3* | Dylanwad a Phwer | Asesiad mewnol gan athrawon. Hyd 5 awr 55 munud 20% o'r Wobr Sengl, 10% o'r Wobr Dwbl (50 o farciau) |

* *Dyma unedau cyffredin a astudir yn y wobwr sengl a'r wobwr ddwbl.*

| Gwobr Sengl | Gwobr Dwbl |
|--|---|
| Uned 4a: Cymhellion Arholiad Ysgrifenedig: Hyd 1 awr 30 munud 30% o'r cymhwyster 60 marc | Uned 4b: Cymhellion Arholiad Ysgrifenedig: Hyd 1 awr 30 munud 20% o'r cymhwyster 60 marc |
| | Uned 5: Parhad a Newid Asesiad mewnol gan athrawon: Hyd 8 awr 20% o'r cymhwyster 60 marc |
| | Uned 6: Cysylltiadau Arholiad Ysgrifenedig: Hyd 1 awr 30 munud 25% o'r cymhwyster 80 marc |

GCSE English Language and Literature (Single and Double Award)

The new GCSE English Language and Literature qualification emphasises the role of language in connecting individuals to the world through spoken and written texts from diverse times, places, and cultures. Learners engage with various texts, analysing language, style, and register while considering purpose, audience, and context.

The qualification fosters fluent, accurate and creative expression in speaking and writing, alongside developing vocabulary and grammar skills. Underpinned by the Curriculum for Wales, its themes are cross-curricular, providing a strong foundation of knowledge, skills and understanding to support progression to post-16 study.

| Element | Description | Assessment |
|---------|---------------------|--|
| Unit 1* | Context and Meaning | Duration 1 hour 30 minutes 30% of the Single Award, 15% of the Double Award 60 marks |
| Unit 2* | Belonging | Non-examination assessment: Duration 7 hours 20% of the Single Award, 10% of the Double Award 60 marks |
| Unit 3* | Influence and Power | Non-examination assessment: Duration 5 hours 55 minutes 20% of the Single Award, 10% of the Double Award 50 marks |

**Common units studied in the single and double award.*

| Single Award | Double Award |
|--|--|
| Unit 4a: Motivations Written Examination: Duration 1 hour 30 minutes 30% of the qualification 60 marks | Unit 4b: Motivations Written Examination: Duration 1 hour 30 minutes 20% of the qualification 60 marks |
| | Unit 5: Continuity and Change Non-examination assessment: Duration 8 hours 20% of the qualification 60 marks |
| | Unit 6: Connections Written Examination Duration 1 hour 30 minutes 25% of the qualification 80 marks |

Mathemateg TGAU – Mathemateg a Rhifedd (dwyrradd)

Yn TGAU Mathemateg a Rhifedd, bydd dysgwyr yn adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd ganddyn nhw o destunau o fewn rhif, algebra, geometreg a data. Bydd dysgwyr yn dysgu agweddau ariannol allweddol bywyd bob dydd oedolyn, fel ymdrin â slipiau cyflog, biliau a chynilion. Mae dealltwriaeth dda o gynnwys y cymhwyster hwn yn llwyfan perffaith i'r rhai sy'n gobeithio dilyn gyrfa STEM.

Bydd y fanyleb TGAU Mathemateg a Rhifedd yn galluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- Datblygu dealltwriaeth o wahanol feysydd mathemateg a sut mae'r meysydd hyn yn cysylltu â'i gilydd.
- Ehangu ar eu hamrediad sgiliau a thechnegau mathemategol ac yn gallu eu defnyddio a'u cymhwyso at amrywiaeth o gyd-destunau bywyd go iawn.
- Meithrin sylfaen gref mewn mathemateg ariannol i baratoi dysgwyr ar gyfer bywyd gwaith.

Mae 3 uned i'r cwrs:

Uned 1: Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd

Bydd dysgwyr yn dysgu gwersi bywyd a fydd yn eu helpu i ddod yn oedolyn hyddysg iawn yn ariannol. Bydd cyfleoedd a pheryglon ariannol yn cael sylw, a bydd dysgwyr yn dysgu sut i ddarllen dogfennau pwysig fel slipiau cyflog, biliau a chyfriflenni banc.

Uned 2: Difyfrifiannell

Bydd dysgwyr yn archwilio cysyniadau lle na fydd angen cyfrifiannell. Bydd dysgwyr yn ddyfnhau eu gwybodaeth o debygolrwydd ac yn archwilio syniadau newydd o fewn algebra a geometreg.

Uned 3: Caniateir Cyfrifiannell

Mae gan yr uned hon y pwysoliad mwyaf o'r tair uned, a gall ddysgwyr defnyddio eu cyfrifiannellau. Mae llawer o drin data ac ystadegau yn yr uned hon yn ogystal â chysyniadau geometreg newydd.

Cymhwyster unedol yw hwn a bydd yn cael eu hasesu drwy arholiad yn unig.

| Uned 1: Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd | |
|---|-------------------------|
| Haen Uwch | Haen Sylfaenol |
| 1 awr 45 mun 80 marc | 1 awr 30 mun 65 marc |
| Pwysoliad: 30% o'r cymhwyster | |

| Uned 2: Difyfrifiannell | |
|--------------------------------|-------------------------|
| Haen Uwch | Haen Sylfaenol |
| 1 awr 45 mun 80 marc | 1 awr 30 mun 65 marc |
| Pwysoliad: 30% o'r cymhwyster | |

| Uned 3: Caniateir Cyfrifiannell | |
|--|-------------------------|
| Haen Uwch | Haen Sylfaenol |
| 2 awr 90 marc | 1 awr 45 mun 75 marc |
| Pwysoliad: 40% o'r cymhwyster | |

Bydd yr haenau ar gyfer asesu'r cymhwyster TGAU fel y ganlyn:

| | | | | | | | | |
|-----------|----|---|---|---|---|---|---|---|
| Uwch | A* | A | B | C | D | | | |
| Sylfaenol | | | | C | D | E | F | G |

Mathematics GCSE – Mathematics and Numeracy (Double Award)

In GCSE Mathematics and Numeracy, learners will build on the knowledge and understanding they have within number, algebra, geometry and data. They will be taught the key financial aspects of everyday adult life, such as dealing with payslips, bills and savings. A good understanding of the content of this qualification is the perfect platform to those hoping to follow a STEM career.

The GCSE specification in Mathematics and Numeracy will enable learners to:

- Develop an understanding of the different areas of mathematics and how they relate to each other.
- Extend their range of mathematical skills and techniques and be able to use and apply them to a range of real-life contexts.
- Gain a strong foundation in financial mathematics to prepare them for life and work.

The course has 3 units:

Unit 1: Financial Mathematics and Other Applications of Numeracy

Learners will learn life lessons that will help them become a financially well-informed adult. Financial opportunities and pitfalls will be addressed, and they will learn how to read important documents like payslips, bills and bank statements.

Unit 2: Non-calculator

Learners will explore concepts where they won't need a calculator. They will deepen their understanding of probability and explore new ideas with algebra and geometry.

Unit 3: Calculator-allowed

This unit has the biggest weighting of all three units, and learners can have a calculator by their side. There is lots of data handling and statistics in this unit as well as new geometry concepts.

This is a unitised qualification and will be assessed through examination only.

| Unit 1: Financial Mathematics and Other Applications of Numeracy | |
|--|---------------------------|
| Higher tier | Foundation tier |
| 1 hour 45 min 80 marks | 1 hour 30 min 65 marks |
| Weighting: 30% of qualification | |

| Unit 2: Non-calculator | |
|---------------------------------|---------------------------|
| Higher tier | Foundation tier |
| 1 hour 45 min 80 marks | 1 hour 30 min 65 marks |
| Weighting: 30% of qualification | |

| Unit 3: Calculator-allowed | |
|---------------------------------|---------------------------|
| Higher tier | Foundation tier |
| 2 hours 90 marks | 1 hour 45 min 75 marks |
| Weighting: 40% of qualification | |

The GCSE will be tiered as follows for assessment:

| | | | | | | | | |
|------------|----|---|---|---|---|---|---|---|
| Higher | A* | A | B | C | D | | | |
| Foundation | | | | C | D | E | F | G |

TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)

Mae TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd) yn gymhwyster newydd sy'n cefnogi eich dysgu a'ch dilyniant drwy'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'n eich galluogi i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg. Mae'r cymhwyster yn cyfrif fel dau TGAU ac yn caniatáu dilyniant i astudio ôl-16, gan gynnwys cyrsiau UG a Safon Uwch Gwyddoniaeth.

Nodau'r cwrs:

- Deall ac esbonio cysyniadau mewn bioleg, cemeg a ffiseg, a'u cymhwyso i gyd-destunau yn y byd go iawn.
- Cwestiynu syniadau gwyddonol, gwerthuso tystiolaeth, a defnyddio sgiliau meddwl yn greadigol i ddatrys problemau.
- Dylunio, cynnal a mireinio ymchwiliadau gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau ymholi.
- Dadansoddi a dehongli data i ddod i gasgliadau dilys.
- Defnyddio sgiliau mathemategol, digidol a chyfathrebu i gyflwyno ac esbonio syniadau gwyddonol yn effeithiol.
- Ystyried materion moesol, moesegol a chynaliadwyedd mewn gwyddoniaeth a deall eu heffaith yn lleol ac yn fyd-eang

Bydd disgyblion blwyddyn 9 wedi cael eu dysgu am wyddoniaeth drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ers ysgol fabanod ac maent yn hen gyfarwydd â therminoleg a iaith wyddonol. Byddai'r Gyfadran Wyddoniaeth am annog disgyblion i barhau i astudio'r pwnc drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ym mlwyddyn 10 ac 11. Mae'r dewis i wneud y cyrsiau yn Saesneg yn parhau. Cynigwn bob cwrs felly yn ddwyieithog ar lefel TGAU.

Cwrs a gynigir

Mae 7 uned i'r cwrs:

- Uned 1: Bioleg Sail Bywyd
- Uned 2: Cemeg Sylweddau Cemegol a Sut Maen Nhw'n Ymddwyn
- Uned 3: Ffiseg Grymoedd, Mudiant a'r Bydysawd
- Uned 4: Bioleg Parhad Bywyd
- Uned 5: Cemeg Bondio Cemegol, Adweithiau ac Adnoddau
- Uned 6: Ffiseg Tonnau, Trydan ac Egni
- Uned 7: Ymholiad Gwyddonol

Sut mae'r cwrs yn cael ei asesu?

Mae'r cymhwyster wedi'i rannu'n 7 uned, ac mae pob un yn cael ei marcio gan CBAC.

| | | |
|--------------------|--|--------------------------|
| Uned 1 (bioleg) | Asesu drwy arholiad Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 14% o gyfanswm y marciau |
| Uned 2 (cemeg) | Asesu drwy arholiad Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 14% o gyfanswm y marciau |
| Uned 3 (ffiseg) | Asesu drwy arholiad Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 14% o gyfanswm y marciau |
| Uned 4 (bioleg) | Asesu drwy arholiad Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 16% o gyfanswm y marciau |
| Uned 5 (cemeg) | Asesu drwy arholiad Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 16% o gyfanswm y marciau |
| Uned 6 (ffiseg) | Asesu drwy arholiad Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 16% o gyfanswm y marciau |
| Uned 7 (ymarferol) | Asesu drwy arholiad Mae gofyn i ddysgwyr gwblhau dau ymholiad o ddewis o dri. Nid oes haenau i'r uned hon. | 10% o gyfanswm y marciau |

Gyrfaedd ym maes gwyddoniaeth

Gall TGAU Gwyddoniaeth agor cyfoeth o lwybrau gyrfa. Mae'r rhain yn cynnwys swyddi yn y meysydd canlynol: Awyrofod ac amddiffyn, Amaethyddiaeth, Diwydiannau cemegol a fferyllol, Cosmetigau a gofal personol, Addysg, Egni ac egni adnewyddadwy, Peirianneg, Gwyddor yr amgylchedd, Cynhyrchu bwyd a diodydd, Gwyddoniaeth fforensig, Meddygaeth a gofal iechyd, Meteoroleg a newid hinsawdd, Gwyddoniaeth ac ymchwil, Chwaraeon a ffitrwydd, a Thelathrebu.

Mae gan y rhan fwyaf o swyddi elfen o wyddoniaeth ynddynt. Mae cyflogwyr yn edrych yn benodol am y sgiliau

trosglwyddadwy a ddatblygir drwy astudio gwyddoniaeth.

GCSE The Sciences (Double Award)

GCSE The Sciences (Double Award) is a new qualification that supports your learning and progression through the Curriculum for Wales. It allows you to develop a strong foundation of knowledge, skills and understanding in Biology, Chemistry and Physics. The qualification counts as two GCSEs and allows for progression to post-16 study, including AS and A Level Sciences.

Aims of the course

- Understand and explain concepts in biology, chemistry, and physics, and apply them to real world contexts.
- Question scientific ideas, evaluate evidence, and use creative thinking to solve problems.
- Design, conduct, and refine investigations using a range of enquiry skills.
- Analyse and interpret data to draw valid conclusions.
- Use mathematical, digital, and communication skills to present and explain scientific ideas effectively.
- Consider moral, ethical, and sustainability issues in science and understand its impact locally and globally.

Year 9 pupils will have been taught science through the medium of Welsh since primary school and are fully familiar with scientific terminology. We as a Science Faculty would like to encourage students to continue to study Science in Welsh. The option to study the course in English continues. All courses therefore will be offered bilingually at GCSE level.

Course on offer

The course has 7 units:

- Unit 1: Biology Basis of Life
- Unit 2: Chemistry Chemical Substances and How They Behave
- Unit 3: Physics Forces, Motion and the Universe
- Unit 4: Biology Continuity of Life
- Unit 5: Chemistry Chemical Bonding, Reactions and Resources
- Unit 6: Physics Waves, Electricity and Energy
- Unit 7: Scientific Enquiry

How will the course be assessed?

The qualification is split into 7 units, which are all marked by WJEC.

| | | |
|--------------------|--|------------------------|
| Unit 1 (biology) | Assessed by exam Foundation and Higher tier available | 14% of the total marks |
| Unit 2 (chemistry) | Assessed by exam Foundation and Higher tier available | 14% of the total marks |
| Unit 3 (physics) | Assessed by exam Foundation and Higher tier available | 14% of the total marks |
| Unit 4 (biology) | Assessed by exam Foundation and Higher tier available | 16% of the total marks |
| Unit 5 (chemistry) | Assessed by exam Foundation and Higher tier available | 16% of the total marks |
| Unit 6 (physics) | Assessed by exam Foundation and Higher tier available | 16% of the total marks |
| Unit 7 (practical) | Assessed by exam. Learners are required to complete two enquiries from a choice of three. This unit is not tiered. | 10% of the total marks |

Career in science

GCSE Science can open up a wealth of career paths. These include jobs within the following fields: Aerospace and defence, Agriculture, Chemical and pharmaceutical industries, Cosmetics and personal care, Education, Energy and renewable energy, Engineering, Environmental science, Food and drink production, Forensic science, Medicine and healthcare, Meteorology and climate change, Science and research, Sport and fitness, and Telecommunications. Most jobs have an element of science in them. The transferrable skills developed by studying science are actively sought out by employers.



TGAU Dylunio Cynnyrch

[Pam dewis TGAU Dylunio Cynnyrch?](#)

Drwy astudio TGAU Dylunio Cynnyrch, byddwch yn barod i gymryd rhan yn hyderus a llwyddiannus mewn byd sy'n fwyfwy technolegol; a byddwch yn ymwybodol o'r hyn sy'n dylanwadu'n ehangach ar ddylunio a thechnoleg, ac yn dysgu gan y dylanwadau hynny. Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau hanesyddol, cymdeithasol/diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Bydd y cwrs yn cynnig cyfle i chi ddatrys problemau go iawn drwy ddylunio a gwneud cynhyrchion neu systemau.

[Sut byddaf yn cael fy asesu?](#)

Uned 1 – Arholiad ar-sgrin Math o Asesiad:

Arholiad digidol 30% o'r cymhwyster: 80 marc

Bydd yr arholiad ar-sgrin yn gofyn i chi ddangos a chymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r egwyddorion, defnyddiau, offer a thechnegau a ddefnyddir mewn Dylunio a Thechnoleg. Bydd cymysgedd o gwestiynau ysgrifennu atebion byr, strwythuredig ac estynedig ar wybodaeth graidd a chynnwys sy'n benodol i'ch llwybr dewisol.

Uned 2 – Project Dylunio: Her Gyd-destunol Math o Asesiad:

Asesiad di-arholiad 70% o'r cymhwyster: 100 marc

Mae'r uned hon wedi'i llunio i gynnig cyfle i chi ddatrys problemau 'bywyd go iawn' drwy ddylunio a gwneud cynhyrchion neu systemau sy'n ymateb i anghenion, dymuniadau a gwerthoedd y marchnadoedd targed. Bydd gofyn i chi nodi cyfleoedd dylunio, cynhyrchu briff a manyleb dylunio clir, creu datrysiadau arloesol, cynhyrchu prototeipiau terfynol o safon a gwerthuso eu haddasrwydd ar gyfer anghenion eu defnyddwyr bwriadedig.

[Pa sgiliau fyddaf yn eu datblygu?](#)

Bydd astudio Dylunio Cynnyrch yn eich galluogi i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer addysg bellach, gwaith a bywyd:

- Meddwl yn greadigol ac arloesol
- Defnyddio dychymyg ac arbrofi
- Gallu beirniadu a mireinio eich syniadau eich hun
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r holl weithgareddau a dylanwadau dylunio a thechnolegol
- Sgiliau gwneud penderfyniadau a chyfathrebu
- Datblygu prototeipiau llawn dychymyg a swyddogaethol o ansawdd uchel

[Gyrfaoedd ym maes dylunio a thechnoleg?](#)

Mae'r cymhwyster hwn yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Dylunio a Thechnoleg ar lefel Safon Uwch, a fyddai'n rhoi cyfle i chi astudio amrywiaeth o gyrsgiau yn y brifysgol. Mae yna lawer o yrfaoedd sy'n dod o astudio Dylunio a Thechnoleg, mae rhai wedi'u rhestru isod:

Pensaerniaeth, Ffasiwn, Dylunio Graffig, Dylunio Systemau, Dylunio Cynnyrch, Peirianeg, Adeiladu.

GCSE Product Design

Why choose GCSE Product Design?

Through studying GCSE Product Design you will be prepared to participate confidently and successfully in an increasingly technological world; and be aware of, and learn from, wider influences on design and technology, including historical, social/cultural, environmental and economic factors.

The course will offer you the opportunity to solve real problems by designing and making products or systems.

How will I be assessed?

Unit 1 – On screen exam Assessment Type:

Digital examination 30% of qualification: 80 marks

The on-screen exam will require you to demonstrate and apply your knowledge and understanding of the principles, materials, tools and techniques used in Design and Technology. There will be a mix of short answer, structured and extended writing questions on both core knowledge and content that is specific to your chosen pathway.

Unit 2 – Design Project: Contextual Challenge Assessment Type:

Non-exam assessment 70% of qualification: 100 marks

This unit is designed to give you the opportunity to solve 'real life' problems by designing and making products or systems that respond to your selected target markets' needs, wants and values. You will be required to identify design opportunities, produce a clear design brief and specification, create innovative solutions, produce quality final prototypes and evaluate their suitability for their intended users' needs.

What skills will I develop?

Studying Product Design will enable you to develop a wide range of transferable skills for further education, work and life:

- Creative and innovative thinking
- Use of imagination and experimentation
- Ability to critique and refine your own ideas
- Knowledge and Understanding of all design and technological activity and influences
- Decision making and communication skills
- Develop high quality, imaginative and functional prototypes

Careers in Design and Technology?

This qualification provides a suitable foundation for the study of Design and Technology at A-level which would allow you the opportunity to study a range of courses at university. There are many careers that come from studying Design and Technology, a few are listed here:

Architecture, Fashion, Graphic Design, Systems Design, Product Design, Engineering, Construction.

Tecstilau TGAU

[Ydych chi yn greadigol ac yn hoff o ddatblygu syniadau gwreiddiol?](#)

[Hoffech chi gael y profiad o ddylunio ffabrig neu gynllunio mewnol?](#)

[Ydych wedi ystyried gyrfa mewn ffasiwn neu gweithio yn yr adran gwisgoedd mewn stiwdio teledu neu'r theatr. Darllenwch ymlaen....](#)

[Nodau'r cwrs:](#)

Mae TGAU Celf Tecstilau yn gwrs cyffrous sy'n archwilio dylunio drwy gyfrwng Tecstilau creadigol. Mae'r cwrs wedi ei ddylunio i ddatblygu eich cryfderau creadigol yn ogystal â chyflwyno cyfleoedd cyffrous yn y maes Tecstilau.

Gall astudio TGAU Celf Tecstilau arwain i ystod o yrfâu gan gynnwys ffasiwn, creu dyluniadau argraffu, dylunio mewnol, hyrwyddo ffasiwn a dylunydd gwisgoedd i'r theatr/ffilm. Bydd y cwrs hefyd yn helpu datblygu sgiliau cyfathrebu, ymchwil a datrys problemau sy'n werthfawr mewn amrywiaeth o lwybrau gyrfaol.

[Yn ystod y cwrs byddwch yn:](#)

- Datblygu lluniadau ffasiwn drwy law a chymorth cyfrifiadur.
- Creu dillad.
- Defnyddio technegau fel batic, clymu a llifo, brodwaith a ffeltio.
- Defnyddio dulliau addurno amrywiol.
- Trosglwyddo dyluniadau i'r argraffydd sychdarthiad.
- Astudio gwaith dylunwyr ac artistiaid
- Creu portffolio o waith gan ddefnyddio llyfrau braslunio a lluniadu a byrddau naws

[Sut mae'r cwrs yn cael ei asesu?](#)

Uned 1

Portffolio Asesiad Di-arholiad
60% o'r cymhwyster.

Bydd y gwaith sy'n cael ei gyflawni o fewn yr uned yn cael ei osod yn fewnol, yn cael ei farcio gan y ganolfan ac yn cael ei gymedroli gan CBAC.

Uned 2

Asesiad di-arholiad 40% o'r cymhwyster .

Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol 10 awr o waith dwys a manwl, ynghyd ag astudiaeth baratoadol.

CBAC fydd yn gosod yr aseiniad wedi'i osod yn allanol, i'w farcio gan y canolfannau a'i gymedroli gan CBAC.

Textiles GCSE

[Are you creative and enjoy producing your own original designs?](#)

[Would you like the opportunity to design fabric or interior design?](#)

[Have you considered a career in fashion, or designing or working in the costume department at a television studio or theatre? Read on...](#)

[Aims of the course:](#)

GCSE Art Textiles is an exciting course that explores creative textiles. The course is designed to develop your individual and creative strengths as well as introducing new and exciting opportunities in the area of Textiles.

Studying Art Textiles at GCSE can lead into a range of career opportunities including Fashion, Textile surface pattern design, Interior Design, Fashion Promotion and Costume/ Theatre design. The course will also help to develop communication, research and problem solving skills which are sought after in most career paths.

[During the course you will have the opportunity to:](#)

- Develop fashion drawings by hand and on the computer.
- Construct garments.
- Use felting, tie and die, batik and embroidery techniques.
- Use a variety of decorating techniques.
- Transfer personal designs from the computer using sublimation printing.
- Study the work of designers and artists.
- Present a varied portfolio of work by exploring the use of sketchbooks, mood boards and presentation drawings

[How is the course assessed?](#)

Unit 1

Non-Examined Assessment Portfolio
60% of the qualification

The work completed within this unit is set internally, marked by the centre and moderated by WJEC.

Unit 2

Non-Examined Assessment
40% of the qualification

Externally Set Assignment
10 hours of sustained and focused work, supported by preparatory studies.

The externally set assignment is set by WJEC, marked by the centres and moderated by WJEC.



Celf TGAU

Mae'r cwrs Celf yn hyblyg iawn. Caiff pob unigolyn gyfle i ddarganfod cryfderau a diddordebau personol wrth weithio trwy'r unedau o waith. Mae'r pwyslais ar gynhyrchu gweithiau gwreiddiol.

Nodau'r cwrs:

- darparu cwrs pleserus o astudiaeth lle mae pob unigolyn yn cael ei annog i ddatblygu ffurf personol o fynegiant
- meithrin sgiliau arsylwi a datblygu technegau dadansoddol
- dangos hyfedredd mewn sgiliau technegol a thrin cyfryngau
- datblygu'r gallu i werthfawrogi celfyddyd a beirniadaeth celfyddydol
- datblygu geirfa berthnasol i Gelf er mwyn ffurfio a lleisio barn ar waith personol a gwaith eraill
- magu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o gelfyddyd sy'n perthyn i ddiwylliant personol ynghyd â diwylliannau eraill
- ymweld ag arddangosfeydd mewn orielau lleol - lle bynnag mae'n bosibl

Cewch gyfle i:

- weithio ym mhob un o'r meysydd canlynol: Celf a Dylunio, Celfyddyd Gain, Dylunio Graffeg, Tecstiliau, Dylunio 3D, Ffotograffiaeth ac Astudiaethau Beirniadol
- Gwaith Cwrs ar waith arlunydd, dylunydd neu greffterson neu ar Gelf a diwylliant arbennig neu fudiad mewn hanes
- gyfrannu at y gwaith dosbarth trwy baratoi canran o'r gwaith gartref
- fynychu'r Clwb Celf all-gyrsiol wythnosol yn yr Adran Gelf
- ddefnyddio adnoddau'r Adran yn yr awr ginio
- gymryd rhan mewn gweithdai gan grefftersonau ar ôl ysgol

Sut mae'r cwrs yn cael ei asesu?

| | | |
|---------------------|-----|--|
| Gwaith Cwrs | 60% | Dewis rhydd o thema sy'n arwain at portfolio o gwaith cwrs syn cynnwys tystiolaeth or canlynol arlunio arsylwadol amrywiol, Graffeg, Tecstilau a gwaith dylunio 3D |
| Prawf wedi'i rheoli | 40% | Dewis o dasgau o themâu a gyflwynir gan CBAC |
| | | Un Haen A* - G |

Art GCSE

The Art course is a very flexible one. Each individual will have the opportunity to discover their own strengths and interests by working through the units of work. The emphasis is on producing original work.

Aims of the course:

- to provide an enjoyable course of study where each individual is encouraged to develop a personal form of expression
- to foster observational skills, develop analytical techniques
- to develop competence in technical skills and the handling of media
- to develop the skill of Art appreciation and criticism
- to develop an art related vocabulary with which to form judgements and voice opinions on their own work and that of others
- to foster an awareness of and an ability to value the Art and artefacts of their own and other cultures
- to visit exhibitions in local galleries whenever possible

You will have the opportunity to:

- work in each of the following areas: Art craft and design, Fine Art, Critical and Contextual studies, Textile Design, Graphic Communications, 3D Design, and Photography and Lens.
- complete an unit of Course Work based on an artist, designer or craftspeople, or the Art of a particular culture or movement in history.
- contribute to class work by preparing a proportion of work at home
- attend the Art Department's extra curricular weekly Art Club
- use the Art Department's facilities in the lunch hour
- take part in work shops provided by local craftspeople after school

How is the course assessed?

| | | |
|-----------------------|-----|---|
| Course Work | 60% | One unit of course work which is developed to create a portfolio which contains examples of drawing graphics, textiles and 3D design. |
| Monitored Examination | 40% | A choice of tasks from the WJEC themes |
| | | One Tier: A* - G |

Celf a Dylunio - Dylunio Tri Dimensiwn

Ydych chi'n mwynhau creu, adeiladu a meddwl yn greadigol? Yna gallai TGAU Celf a Dylunio Tri Dimensiwn (3D) fod yn gwrs perffaith i chi! Mae'r llwybr hwn yn rhoi'r cyfle i chi ddylunio a gwneud gwrthrychau, cynhyrchion ac amgylcheddau tri dimensiwn sy'n edrych yn wych ac sydd â phwrpas go iawn.

Yn ystod y cwrs, byddwch yn archwilio'r berthynas rhwng ffurf a swyddogaeth – sut mae rhywbeth yn edrych a sut mae'n gweithio. Byddwch yn dysgu drwy wneud, gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau ymarferol fel gwneud modelau, prototeipio, adeiladu a chydod. Gallwch ddefnyddio technoleg fodern fel dylunio drwy gymorth cyfrifiadur (CAD) a gweithio gyda deunyddiau cynaliadwy os yn dymuno.

Un o gryfderau'r cwrs yw'r amrywiaeth eang o feysydd creadigol y gallwch eu hastudio. Gallwch weithio mewn meysydd fel cerameg, cerflunwaith, dylunio cynnyrch, gemwaith, dylunio mewnol, pensaerniaeth, dylunio ar gyfer theatr neu ffilm, a llawer mwy. Nid ydych yn gyfyngedig i un ardal – mae'r cwrs yn eich annog i arbrofi a chanfod beth sy'n eich ysbrydoli fwyaf.

Byddwch hefyd yn ymchwilio i waith artistiaid, dylunwyr a gwneuthurwyr 3D enwog, o'r gorffennol a heddiw, i helpu i danio syniadau newydd a datblygu eich steil eich hun. Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar ddatblygu hyder, creadigrwydd a sgiliau ymarferol, sy'n ddefnyddiol ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol fel dylunio, pensaerniaeth, gemau, peirianeg, theatr a'r diwydiannau creadigol.

Os ydych chi'n hoffi meddwl tu allan i'r bocs, gweithio gyda'ch dwylo, a gweld eich syniadau'n dod yn fyw, mae TGAU Celf a Dylunio 3D yn gwrs cyffrous sy'n eich galluogi i greu rhywbeth gwirioneddol unigryw.

[Sut mae'r cwrs yn cael ei asesu?](#)

Uned 1

Portffolio Asesiad Di-arholiad 60% o'r cymhwyster.

Bydd y gwaith sy'n cael ei gyflawni o fewn yr uned yn cael ei osod yn fewnol, yn cael ei farcio gan y ganolfan ac yn cael ei gymedroli gan CBAC.

Uned 2

Asesiad di-arholiad 40% o'r cymhwyster .

Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol 10 awr o waith dwys a manwl, ynghyd ag astudiaeth baratoadol.

CBAC fydd yn gosod yr aseiniad wedi'i osod yn allanol, i'w farcio gan y canolfannau a'i gymedroli gan CBAC.

Art and Design – 3D Art and Design

Do you enjoy creating, building and thinking creatively? If so, GCSE Art and Design Three-Dimensional (3D) could be the perfect course for you! This pathway gives you the opportunity to design and make three-dimensional objects, products and environments that look great and have a real purpose.

During the course, you will explore the relationship between form and function – how something looks and how it works. You will learn through making, using a range of practical techniques such as model making, prototyping, construction and assembly. You may also use modern technology such as computer-aided design (CAD) and work with sustainable materials if you wish.

One of the strengths of the course is the wide range of creative areas you can study. You can work in areas such as ceramics, sculpture, product design, jewellery, interior design, architecture, design for theatre or film, and much more. You are not limited to one area – the course encourages you to experiment and discover what inspires you most.

You will also research the work of well-known 3D artists, designers and makers, from the past and the present, to help spark new ideas and develop your own personal style. The course focuses on building confidence, creativity and practical skills, which are useful for future careers such as design, architecture, games, engineering, theatre and the creative industries.

If you enjoy thinking outside the box, working with your hands, and seeing your ideas come to life, GCSE Art and Design 3D is an exciting course that allows you to create something truly unique.

How will the course be assessed?

Unit 1

Non-Examined Assessment Portfolio
60% of the qualification

The work completed within this unit is set internally, marked by the centre and moderated by WJEC.

Unit 2

Non-Examined Assessment
40% of the qualification

Externally Set Assignment
10 hours of sustained and focused work, supported by preparatory studies.

The externally set assignment is set by WJEC, marked by the centres and moderated by WJEC.

Ffotograffiaeth TGAU

Hoffech chi: dysgu technegau ffotograffig?

Darganfod pa mor greadigol y gallech chi fod?

Datblygu steil ffotograffiaeth eich hun?

Mae'r TGAU yma yn mabwysiadu ymagwedd eang a chyffrous at ffotograffiaeth gyfoes. Mae hyn yn eich galluogi i feithrin eich creadigrwydd wrth ddatblygu sgiliau mewn ffotograffiaeth ddigidol, technegau traddodiadol a'r ddelwedd symudol. Mae'r cwrs yma yn ymarferol iawn sydd yn seiliedig ar hanes ffotograffiaeth a diwylliant gweledol, yn ogystal ag elfennau cyd-destunol. Bydd astudio'r rhain yn eich annog chi feddwl yn feirniadol am ffotograffiaeth a'i effaith ar ddiwylliant, cymdeithas a bywyd bob dydd.

Nodau'r cwrs:

- datblygu syniadau drwy ymchwiliadau sy'n seiliedig ar ddedol a dadansoddi ffynonellau'n feirniadol
- cymhwyso dealltwriaeth o arferion perthnasol yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol
- mireinio eu syniadau wrth i waith fynd rhagdo drwy arbrofi â'r cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau
- cofnodi eu syniadau, arsylwadau, mewnwelediadau a barnau annibynnol, yn weledol a thrwy anodi ysgrifenedig, defnyddio sgiliau lluniadu at anghenion a phwrpasau gwahanol, fel sy'n briodol i'r cyd-destun, er enghraifft, defnyddio lluniadu fel rhan o broses ddatblygu
- gwireddu bwriadau personol drwy gynnal eu cymhwysiad o'r broses greadigol

Cewch gyfle i:

- weithio yn y meysydd canlynol: ffotograffiaeth ddogfennol, ffoto newyddiaduraeth, ffotograffiaeth stiwdio, ffotograffiaeth lleoliad, delweddaeth arbrofol, ffotograffiaeth Celf Gain megis gosodiad ffotograffau a'r ddelwedd symudol
- gyfrannu at yr uned 1 a 2 trwy baratoi canran o'r gwaith adref
- ymweld ag arddangosfeydd Celf
- gymryd rhan mewn gweithdai ffotograffiaeth

Sut mae'r cwrs yn cael ei asesu?

| | | |
|--------------------------------|-----|--|
| Uned 1 Portffolio | 60% | Un uned o waith sy'n arwain at portffolio yn seiliedig ar ystod o dechnegau ffotograffig a darnau terfynol |
| Uned 2 Aseiniad wedi'i Osod | 40% | Aseiniadau sy'n seiliedig ar themâu, ysgogiadau gweledol a briffau ysgrifenedig wedi'u gosod gan CBAC |
| | | Un Haen: A* - G |

Photography GCSE

Would you like to: learn about photographic techniques?

Discover how creative you could be?

Develop your own style of photography?

This GCSE takes a broad and exciting approach to contemporary photography. This allows you to nurture your creativity whilst gaining skills in digital photography, traditional techniques and the moving image. This very practical photography GCSE is supported by the history of photography and visual culture, as well as contextual elements. Studying these will encourage you to think critically about photography and its impact on culture, society and everyday life.

Aims of the course:

- develop ideas through investigations informed by selecting and critically analysing sources
- apply an understanding of relevant practices in the creative and cultural industries
- refine ideas as work progresses through experimenting with media, materials, techniques and processes
- record ideas, observations, insights and independent judgements, visually and through written annotation,
- use drawing skills for different needs and purposes, appropriate to the context, for example, using drawing as part of the development process
- realise personal intentions through the sustained application of the creative process.

You will have the opportunity to:

- work in the following areas: Documentary photography, Photo-journalism, Studio photography, Location photography, Experimental imagery
- Fine Art Photography Installation, Moving image
- contribute to Unit 1 and 2 by preparing a proportion of work at home
- visit Art Exhibitions
- take part in Photography Workshops

How is the course assessed?

| | | |
|--------------------------|-----|--|
| Unit 1 Portfolio | 60% | One body of work which is developed to create a portfolio demonstrating a range of photographic techniques and outcomes. |
| Unit 2 Externally Set | 40% | Assignments based on themes, visual stimuli and written briefs set by WJEC. |
| | | One Tier: A* - G |

Cyfrifiadureg TGAU

Os cymerwch eiliai i ystyried byd heb gyfrifiaduron, byddwch yn dechrau deall pam mae datblygu eich gwybodaeth am y byd cyfrifiadura wedi dod yn ffactor llwyddiant mor hanfodol mewn bywyd modern.

Beth Fyddaf yn ei Astudio?

Bydd CBAC TGAU mewn Cyfrifiadureg yn eich helpu i wneud y gorau o bwer eich cyfrifiaduron, o ddeall sut maen nhw'n gweithio, i ddefnyddio sgiliau rhaglennu i greu eich cymwysiadau a'ch atebion eich hun i broblemau yn y byd o'ch cwmpas.

Uned 1: Deall Cyfrifiadureg

- Mae'r uned hon yn eich helpu i feithrin eich dealltwriaeth o agweddau ymarferol ar gyfrifiadura fel caledwedd, meddalwedd, systemau, rhwydweithiau a chyfathrebu, wrth ddatblygu eich gallu i gynllunio, rheoli a darparu datrysiadau cyfrifiadurol ac anghenion a phroblemau bob dydd.
- Asesiad (50%) : Arholiad ar-sgin : 1 awr 30 munud

Uned 2: Rhaglennu Cyfrifiadurol

- Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i chi ddatblygu eich sgiliau rhaglennu, cyn eu defnyddio i greu datrysiad i broblem byd go iawn.
- Asesiad (50%) : Arholiad ar-sgrin : 2 awr

Pa Sgiliau Fyddaf yn eu Datblygu?

- deall a chymhwyso egwyddorion a chysyniadau cyfrifiadureg
- esbonio nodweddion a swyddogaethau systemau
- datblygu sgiliau ym maes meddwl cyfrifiannol
- modelu a dadansoddi problemau mewn termau cyfrifiannol er mwyn datblygu a gweithredu strategaethau i'w datrys nhw
- datblygu eu dealltwriaeth o gylchred oes datblygu systemau a'u gallu i'w gymhwyso
- cymhwyso sgiliau mathemategol perthnasol
- archwilio dimensiynau cymdeithasol, proffesiynol, moesegol, amgylcheddol a chyfreithiol perthnasol systemau.

Gyrfaoedd Mewn Cyfrifiadureg

Mae cyfrifiaduron ym mhob man. Er bod ystod enfawr o gyfleoedd ym mynd cyfrifiaduron a rhaglennu ei hun, mae'r un mod wir bod cyfrifiaduron yn trawsnewid bron pob agwedd ar fywyd fel rydyn ni'n ei adnabod. Felly os byddwch yn dewis arbenigo mewn cyfrifiadura, neu defnyddio eich gwybodaeth gyfrifiadura i wella eich perfformiad mewn meysydd eraill, ni fydd dewis gwella eich sgiliau cyfrifiadurol byth yn benderfyniad gwael.

Engheifftiau o Yrfaoedd Cyfrifiadura

- Datblygu gwefannau
- Deallusrwydd artiffisial
- Rheoli prosiectau
- Dadansoddi systemau
- Datblygu gemau a systemau rhyngweithiol

Computer Science GCSE

If you take a moment to consider a world without computers, you will begin to understand why developing your knowledge of the world of computing has become such a critical success factor in modern life.

What Will I Study?

A WJEC GCSE in Computer Science will help you to make the most of the power of computers, from understanding how they work, to using programming skills to create your own applications and solutions to problems in the world around you.

Unit 1: Understanding Computer Science

- This unit helps you to build your understanding of practical aspects of computing such as hardware, software, systems, networks and communication, whilst developing your ability to plan, manage and delivery computer -based solutions for everyday needs and problems.
- Assessment (50%) : On-Screen Exam : 1 hour 30 minutes

Unit 2: Computer Programming

- This unit gives you the opportunity to develop your programming skills, before using them to create a solution to a real-world problem.
- Assessment (50%) : On-Screen Exam : 2 hours

What Skills Will I Develop?

- understand and apply principles and concepts of computer science
- explain the features and functions of systems
- develop skills in computational thinking
- model and analyse problems in computational terms in order to develop and implement strategies to solve them
- develop their understanding of, and ability to apply, the systems development life cycle
- apply relevant mathematical skills
- explore relevant social, professional, ethical, environmental and legal dimensions of systems.

Careers in Computer Science

Computers are everywhere. Whilst there is a huge range of opportunities in the world of computers and programming itself, it is equally true that computers are transforming just about every aspect of life as we know it. Therefore, whether you choose to specialise in computing, or use your computing knowledge to improve your performance in other areas, choosing to develop your computing skills will never be a bad decision.

Examples of Computing Careers

- Web development
- Artificial intelligence and LLM development
- Project management
- Social media
- System planning and analysis
- Game development



Hanes TGAU

Nodau'r cwrs:

- ysgogi diddordeb mewn hanes
- ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o ddigwyddiadau'r gorffennol i wneud synnwyr o'n byd presennol
- datblygu dealltwriaeth o'r ffyrdd y cafodd y gorffennol ei bortreadu a'i ddehongli
- gwneud defnydd beirniadol o ffynonellau hanesyddol
- hyrwyddo ymwybyddiaeth o'n hetifeddiaeth genedlaethol
- darparu sylfaen gadarn ar gyfer astudiaeth bellach
- datblygu sgiliau amrywiol megis llunio barn, datrys problemau, sgiliau ysgrifennu, sgiliau ymchwilio ac astudio annibynnol, yn ogystal â sgiliau dadansoddi a gwerthuso.

Cewch gyfle gyfle i astudio pynciau amrywiol o wahanol gyfnodau a chymdeithasau hanesyddol:

1. Blwyddyn 10 Uned 3 - Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd

Astudiaeth o Gyfnod Modern – Newidiadau yng nghymdeithas yr Unol Daleithiau tua 1880-1980

- Triniaeth Americanwyr Affricanaidd a gweithgareddau'r KKK
- Triniaeth mewnfudwyr a phobloedd brodorol
- Y '20au gwyllt a datblygiad adloniant poblogaidd fel y teledu, sinema, Jazz
- Datblygiad hawliau sifil yn UDA yn cynnwys gwaith Malcolm X a Martin Luther King
- Ail don ffeministiaeth 1960-1980, datblygiad hawliau menywod yn sgil dyfarniadau achosion llys fel Roe V Wade 1973

2. Blwyddyn 10 Uned 2 - Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop neu'r Byd

Astudiaeth o'r Oesoedd Canol – Y Pla Du tua 1330-1360: astudiaeth achos ar gymdeithas yn yr oesoedd canol

- Sut lledodd y pla ac ymdrechion i'w atal
- Effaith y Pla ar Ewrop
- Strategaethau i atal lledaeniad y pla ac ymatebion pobl iddynt
- Cost gymdeithasol y pla yn cynnwys cyfraddau marwolaeth a'i effaith ar gymdeithasau a chredoau pobl

3. Blwyddyn 11 Uned 1 - Astudiaeth fanwl o Hanes Cymru

Cymru yn ystod y Cyfnod Modern Cynnar - Cymru a'r Tuduriaid cynnar, tua 1485 –1547

- Brwydrau Rhyfeloedd y Rhosynnod a Brwydr Bosworth
- Arwyddocâd Elisabeth o Efrog
- Arwisgiad y Tywysog Arthur a'i frawd Harri'r VIII

4. Blwyddyn 11 Uned 4 - Astudiaeth o gymdeithas sy'n newid

- Ymchwiliad hanesyddol i thema benodol gyda ffocws ar newid dros gyfnod o 75-100 o flynyddoedd
- Themâu megis Diwylliant, Heddwch a Gwrthdaro a Chydraddoldeb ac Anghydraddoldeb

Sut bydd y cwrs yn cael ei asesu ?

| | | |
|--------|-----|---|
| Uned 1 | 30% | Arholiad ysgrifenedig 1 awr |
| Uned 2 | 20% | Asesiad di-arholiad 3 awr wedi'i farcio gan CBAC. |
| Uned 3 | 30% | Arholiad ysgrifenedig 1 awr |
| Uned 4 | 20% | Asesiad di-arholiad 4 awr 15 munud wedi'i farcio gan yr ysgol a'i gymedroli gan CBAC. |

History GCSE

Aims of the course:

- to stimulate an interest in history
- to gain knowledge and understanding of past events to make sense of current developments
- to develop an understanding of the ways in which the past has been portrayed and interpreted
- to make critical use of historical sources
- to promote an awareness of our national heritage
- to provide a sound basis for future study
- to develop essential skills such as making judgements, problem solving, writing and research skills, independent study as well as analytical and evaluative skills

You will have an opportunity to study topics on various historical periods and societies:

1. Year 10 Unit 3 - A study of a period in World History

Modern History – Changes in US society c. 1880 – c.1980

- The experiences of African Americans and activities of the Ku Klux Klan
- The treatment of Indigenous Peoples and Immigrants
- The Roaring 20's and developments in popular entertainment such as the growth of the radio, cinema and jazz music
- Civil Rights in the USA and the importance of Malcolm X and Martin Luther King
- Second-wave Feminism c.1960– c.1980, the impact on women's rights of equality legislation and Supreme Court rulings, including Roe V Wade 1973

2. Year 10 Unit 2 - An in-depth study on European/ World history

A study of Medieval History – The Black Death c.1330-1360: a case study in medieval society

- The spread of the disease and attempts to curtail it
- The effects of the disease on Europe
- Strategies to stop it spreading and people's reactions to the Black Death
- The social cost of the Black Death, including estimates of mortality rates, the impact of death and disease on families, communities and beliefs

3. Year 11 Unit 1- An in- depth study of Welsh History

Wales in the Early Modern Period – Wales and the early Tudors c 1485- 1547.

- The War of the Roses and Battle of Bosworth
- The significance of Elizabeth of York
- Investiture of Princes Arthur and the future Henry VIII

4. Year 11 Unit 4 - A study of a Changing Society

- An historical enquiry on a theme which tracks change across a period of 75-100 years.
- Themes including Culture, Peace and Conflict and Equality and Inequality.

How is the course assessed?

| | | |
|--------|-----|---|
| Unit 1 | 30% | Written examination 1 hour |
| Unit 2 | 20% | Non -examination 3-hour assessment to be marked by WJEC |
| Unit 3 | 30% | Written examination 1 hour |
| Unit 4 | 20% | 4-hour 15 minutes non-examination assessment to be marked by the school and moderated by WJEC |

Daearyddiaeth TGAU

“Mae daearyddiaeth nid yn unig yn gyfoes a pherthnasol, mae’n un o’r pynciau mwyaf cyffrous, anturus a gwerthfawr i’w astudio. Mae cymaint o broblemau presennol y byd yn berwi i lawr i ddaearyddiaeth, ac mae angen daearyddwyr y dyfodol i’n helpu i’w deall.” (Michael Palin CBE)

Mae TGAU Daearyddiaeth yn cefnogi dysgwyr i:

- ddod yn ddaearyddwyr annibynnol, cytbwys ac ystyriol gyda dealltwriaeth fanwl o ryngberthnasoedd gofodol a’r byd sy’n newid
- gwerthfawrogi natur gymhleth, luosog ac amrywiol cymdeithasau a’u rhyngweithiadau â thirweddau ffisegol amrywiol a deinamig
- dangos safbwynt daearyddol ar werthoedd, agweddau a phersbectifau ynglŷn â’r rhyngberthnasoedd rhwng pobl a’u hamgylchedd
- meithrin chwilfrydedd i archwilio achosion, effeithiau a chanlyniadau daearyddol
- gwneud synnwyr o’r byd er mwyn gweithio tuag at ddyfodol cynaliadwy.

Uned 1: Ein Byd Ffisegol a Dynol

Pwrpas yr uned hon yw cynnwys testunau craidd a fydd yn gosod cyd-destun y cwrs ac yn rhoi’r cefndir sy’n angenrheidiol i gwblhau’r tair uned arall. Bydd y disgyblion yn astudio dalgylch afon ac afonydd, morluniau sy’n newid, mudo a newid aneddiadau.

Uned 2: Datblygu Sgiliau Gwaith Maes

Pwrpas yr uned hon yw archwilio gwaith maes a sgiliau gan ddatblygu dealltwriaeth o’r model ymholi chwe cham.

Uned 3: Ein byd dynameg ac amrywiol

Pwrpas yr uned hon yw cyflwyno dysgwyr i feysydd allweddol daearyddiaeth ddynol a ffisegol, gan archwilio’r rhyng-gysylltiad economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol rhwng pobl a lleoedd.

Uned 4: Datrysiadau Cynaliadwy

Pwrpas yr uned hon yw archwilio materion daearyddol presennol a dyfodol cynaliadwy a chyflwyno’r tri philer cynaliadwyedd a’r nodau cynaliadwyedd, ar sail gweithredu ac i wella sgiliau datrys problemau.

Sut mae’r cwrs yn cael ei asesu?

| | Sut yn cael ei asesu? | Canran o’r cymhwyster |
|---------------|--------------------------------------|------------------------------|
| Uned 1 | Arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud | 30% |
| Uned 2 | Asesiad di-arholiad | 25% |
| Uned 3 | Arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud | 30% |
| Uned 4 | Asesiad di-arholiad | 15% |

Geography GCSE

“Geography is not only up to date and relevant, it is one of the most exciting, adventurous and valuable subjects to study today. So many of the world’s current problems boil down to geography, and need the geographers of the future to help us understand them.” (Michael Palin CBE)

GCSE Geography supports learners to:

- become independent, balanced and thoughtful geographers with an in-depth understanding of spatial interrelationships and the changing world
- appreciating the complex, multiple and diverse nature of societies and their interactions with diverse and dynamic physical landscapes
- demonstrate a geographical perspective on values, attitudes and perspectives about the interrelationships between people and their environment
- foster curiosity to explore geographical causes, effects and consequences
- Make sense of the world in order to work towards a sustainable future.

Unit 1: Our Physical and Human World

The purpose of this unit is to include core texts that will set the context for the course and provide the background necessary to complete the other three units. Pupils will study river and river catchment, changing seascapes, migration and settlement change.

Unit 2: Developing Fieldwork Skills

The purpose of this unit is to explore fieldwork and skills while developing an understanding of the six-step enquiry model.

Unit 3: Our dynamic and diverse world

The purpose of this unit is to introduce learners to key areas of human and physical geography, exploring the economic, social, cultural and political interconnectedness between people and places

Unit 4: Sustainable Solutions

The purpose of this unit is to explore current geographical issues and sustainable futures and to present the three sustainability pillars and sustainability goals, both on an implementation basis and to improve problem-solving skills.

How will the course be assessed?

| | Assessment | Percentage of qualification |
|---------------|------------------------------------|------------------------------------|
| Unit 1 | Written examination 1 awr 30 munud | 30% |
| Unit 2 | Non-exam assessment | 25% |
| Unit 3 | Written examination 1 awr 30 munud | 30% |
| Unit 4 | Non-exam assessment | 15% |

Astudiaethau Crefyddol TGAU

Nodau'r Cwrs:

Darganfyddwch y Byd trwy Ffydd a Ffyddiaeth!

Mae TGAU Astudiaethau Crefyddol yn cynnig y cyfle i ymchwilio i gredoau, diwylliannau, a systemau moesegol o wahanol ranau o'r byd, gan ganolbwyntio ar Islam a Christeg. Drwy astudio'r pwnc hwn, byddwch yn datblygu sgiliau hanfodol fel meddwl beirniadol, empathi, a chyfathrebu, sydd yn agor llawer o ddrws i yrfaeoddedd yn y dyfodol. Mae'r cwrs yn eich paratoi ar gyfer cymdeithas amlddiwylliannol ac aml-ffydd, gan eich helpu i ddeall agweddau cymdeithasol a moesegol mawr, o berthnasoedd i gyfiawnder. Byddwch hefyd yn elwa o'r gallu i ddelio gyda heriau moesol a chymdeithasol mewn byd modern.

Yn ôl Ddeddf Addysg Ddiwygiedig 1988, mae Astudiaethau Crefyddol yn: "... paratoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn."

Dewiswch Astudiaethau Crefyddol, a byddwch yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, a sgiliau sy'n rhoi sylfaen gadarn i gyfleoedd bywyd a gweithio mewn cymdeithas amlddiwylliannol, wrth baratoi ar gyfer dyfodol llawn posibiliadau. Mae'r pwnc hefyd yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i ddelio gydag unrhyw benbleth moesol neu gymdeithasol sy'n wynebu'r byd heddiw

Cewch gyfle i astudio:

| Uned 1: Credoau, Dysgeidiaethau ac Arferion Crefyddol ac Anghrefyddol | Uned 2: Crefydd a Pherthnasoedd |
|--|---|
| Archwilio'r berthynas rhwng crefydd a pherthnasoedd personol a chymdeithasol. Ystyried sut mae credoau crefyddol yn dylanwadu ar agweddau tuag at berthnasoedd | Archwilio credoau a dysgeidiaethau crefyddol sylfaenol. Ystyried arferion crefyddol ac anghrefyddol mewn cyd-destunau amrywiol. |

Sut mae'r cwrs yn cael ei asesu?

Mae Uned 1 yn cael eu asesu trwy:

- Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud.
- 30% o'r cymhwyster cyffredinol.
- 60 marc.
- Cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, atebion byr ac estynedig.

Mae Uned 2 yn cael eu asesu trwy:

- Asesiad di-arholiad: 6 awr.
- 20% o'r cymhwyster cyffredinol.
- 60 marc.
- Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan, a'i gymedroli gan CBAC.
- Bydd yr asesiad yn seiliedig ar un o ddwy thema osod a gosodiad a osodir gan CBAC bob blwyddyn.
- Bydd y themâu a'r gosodiadau ar gael ar wefan Porth CBAC.

Beth ellir gwneud gyda chymhwyster TGAU?

- Gwasanaethau Cyhoeddus: Mae swyddi fel swyddog heddlu, gweithiwr cymdeithasol, neu was sifil yn elwa o ddealltwriaeth o amrywiaeth ddiwylliannol a chrefyddol.
- Addysg: Bydd opsiwn i fod yn athro/athrawes, ymchwilydd academaidd, neu weithio mewn amgueddfeydd ac etifeddiaeth ddiwylliannol.
- Cyfryngau a'r Gyfraith: Mae gyrfaeoddedd fel newyddiadurwyr, arbenigwr cysylltiadau cyhoeddus, cyfreithiwr, neu gynghorydd cyfreithiol yn gwerthfawrogi rhesymu moesegol a dealltwriaeth ddiwylliannol.
- Gofal Iechyd: Mae nyrsys, meddygon, a chwnselwyr yn aml yn defnyddio gwybodaeth am arferion crefyddol i wella gofal cleifion.
- Gwaith Elusennol: Mae rolau dyngarol neu waith mewn sefydliadau ffydd yn aml yn cyd-fynd â'r sgiliau a'r wybodaeth ac enillir yn AC.
- Busnes a Diwydiannau Creadigol: Gall adnoddau dynol, swyddogion amrywiaeth, awduron, neu drefnwyr digwyddiadau gymhwyso gwybodaeth AC i wella cynhwysiant a chreadigrwydd.

Religious Studies GCSE

Aims of the course:

Discover the World through Faith and Belief!

Religious Studies GCSE offers the opportunity to explore beliefs, cultures, and ethical systems from different parts of the world, with a focus on Islam and Christianity. By studying this subject, you will develop essential skills such as critical thinking, empathy, and communication, which open many doors to future careers. The course prepares you for a multicultural and multi-faith society, helping you understand major social and ethical issues, from relationships to justice. You will also benefit from the ability to deal with moral and social challenges in the modern world.

According to the Education Reform Act 1988, Religious Studies is:

“... preparing pupils for the opportunities, responsibilities, and experiences of adult life.”

Choose Religious Studies, and you will develop knowledge, understanding, and skills that provide a solid foundation for life opportunities and working in a multicultural society, while preparing for a future full of possibilities. The subject also provides knowledge and understanding of how to address any moral or social dilemma facing the world today.

You will have the opportunity to study:

| Unit 1: Religious and Non-religious Beliefs, Teachings, and Practices | Unit 2: Religion and Relationships |
|--|--|
| Explore the relationship between religion and personal and social relationships. Consider how religious beliefs influence attitudes towards relationships. | Explore fundamental religious beliefs and teachings. Consider religious and non-religious practices in various contexts. |

How is the course assessed?

Unit 1 is assessed through:

- Written exam: 1 hour 15 minutes.
- 30% of the overall qualification.
- 60 marks.
- Questions requiring objective responses, short answers, and extended answers.

Unit 2 is assessed through:

- Non-exam assessment: 6 hours.
- 20% of the overall qualification.
- 60 marks.
- Set by WJEC, marked by the centre, and moderated by WJEC.
- The assessment will be based on one of two themes set each year by WJEC.
- The themes and statements will be available on the WJEC website.

What can be done with an RS qualification?

- Public Services: Jobs such as police officers, social workers, or civil servants benefit from an understanding of cultural and religious diversity.
- Education: There is an option to become a teacher, academic researcher, or work in museums and cultural heritage.
- Media and Law: Careers like journalists, public relations specialists, lawyers, or legal advisors value ethical reasoning and cultural understanding.
- Healthcare: Nurses, doctors, and counselors often use knowledge of religious practices to improve patient care.
- Charity Work: Humanitarian roles or work in faith-based organizations often align with the skills and knowledge gained in Religious Studies.
- Business and Creative Industries: Human resources, diversity officers, authors, or event organizers can apply Religious Studies knowledge to enhance inclusion and creativity.



Ffrangeg / Sbaeneg TGAU

Pam Dysgu Ieithoedd?

- Cyfathrebu gydag eraill yn eu hiaith nhw, dydy dros 75% o boblogaeth y byd ddim yn siarad Saesneg.
- Teithio a darganfod diwylliannau eraill.
- Ennill sgil a fydd yn gwella eich cyflogadwyedd ac ehangu cyfleoedd gyrfaol ym myd busnes, marchnata, peirianeg, dylunio, addysg, y celfyddydau, y cyfryngau a llawr mwy!
- Codi safon eich iaith eich hun wrth ddatblygu sgiliau llythrennydd amlieithog.
- Gwella eich sgiliau cof, hunanddisgyblaeth a datrys problemau.
- MAE DYSGU IAITH YN HWYL, YN HER AC YN DOD Â LLWYDDIANT!

Cewch gyfle i:

- Deithio i Ffrainc/ Sbaen gyda ni yn ystod y cwrs TGAU.
- Ddysgu sut i drafod agweddau gwahanol o fywyd pob dydd yn cynnwys: astudiaethau, amser hamdden, teithio a llawer mwy.
- Ddysgu am faterion byd-eang, megis yr amgylchedd a bywyd mewn gwledydd a chymunedau eraill.
- Astudio sgript ffilm yn yr iaith.
- Ddysgu am gyfleoedd gyrfaol sydd ar gael trwy astudio ieithoedd.

Sut mae'r cwrs yn cael ei asesu ?

Nid oes unrhyw beth yn cyfrif tan flwyddyn 11 felly ceir cyfle i chi gyrraedd y safon ddisgwyliedig yn raddol dros flwyddyn 10 ac 11.

| | | |
|---|----------------|---|
| Uned 1: Llafaredd Asesiad di-arholiad Prawf siarad: 7-10 munud Amser paratoi: 10 munud 30% o'r cymhwysr | 60 marc | 30% Arholiad llafar gyda'ch athrawes yn yr ysgol tua Pasg blwyddyn 11. |
| Tair tasg: <ul style="list-style-type: none">• Darllen yn uchel a chwarae rôl• Cyflwyniad a thrafodaeth• Sgwrs Ni chaniateir i ddysgwyr defnyddio geiriadur mewn unrhyw ran o'r asesiad | | 15% Darn ysgrifenedig byr o dan amgylchiadau arholiad yn yr ysgol yn ystod blwyddyn 11. |
| Uned 2: Darllen ac Ysgrifennu Asesiad di-arholiad: 1 awr 15% o'r cymhwysr | 45 marc | 55% Arholiadau darllen a gwrando yn yr Haf ar ddiwedd blwyddyn 11. |
| <ul style="list-style-type: none">• Ymateb ysgrifenedig yn Ffrangeg Ni chaniateir i ddysgwyr defnyddio geiriadur mewn unrhyw ran o'r asesiad | | |
| Uned 3: Gwrando Arholiad ysgrifenedig: 45 munud 20% o'r cymhwysr | 45 marc | |
| <ul style="list-style-type: none">• Tasgau gwrando a deall gydag ymatebion penodol ac ysgrifenedig Ni chaniateir i ddysgwyr defnyddio geiriadur mewn unrhyw ran o'r asesiad | | |
| Uned 4: Darllen ac Ysgrifennu Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud 35% o'r cymhwysr | 70 marc | |
| <ul style="list-style-type: none">• Tasgau darllen a deall• Cyfieithu o'r Ffrangeg i'r Gymraeg/Saesneg• Tasg ysgrifennu mewn ymateb i ysgogiadau syml a chyfarwydd Ni chaniateir i ddysgwyr defnyddio geiriadur mewn unrhyw ran o'r asesiad | | |

French / Spanish GCSE

Why Learn Languages?

- To communicate with others in their own language – over 75% of the world’s population does not speak English.
- To travel and experience other cultures.
- To gain a skill that will improve your employability and enhance career opportunities in the world of business, marketing, engineering, design, education, the arts, media and much more!
- To improve the standard of your own language by developing multi-lingual literacy skills.
- To improve your memory, self-control and problem-solving skills
- LEARNING A LANGUAGE IS FUN, CHALLENGING AND BRINGS SUCCESS!

You will have the opportunity to:

- Travel to France/ Spain with us during the GCSE course.
- Learn how to discuss different aspects of everyday life including: studies, travel, free time and more.
- Learn about global issues such as the environment and life in other countries and communities.
- Study a film script in the foreign language.
- Learn about career opportunities available through studying languages.

How is the course assessed?

Nothing is assessed until year 11 which means we gradually get you to the standard required over year 10 and 11.

| | | |
|--|-----------------|---|
| Unit 1: Oracy Non-examination assessment Speaking test: 7-10 minutes Preparation time: 10 minutes 30% of qualification | 60 marks | 30% Oral exam with your teacher in year 11. |
| Three Tasks: <ul style="list-style-type: none"> • Read aloud and role play • Presentation and discussion • Conversation Learner are not permitted to use a dictionary in any part of the assessment. | | 15% A short written task completed under exam conditions at school during year 11. 55% Reading and listening exams in the summer of year 11. |
| Unit 2: Reading and Writing Non-examination assessment: 1 hour 15% of qualification | 45 marks | |
| <ul style="list-style-type: none"> • Written response in Spanish Learner are not permitted to use a dictionary in any part of the assessment. | | |
| Unit 3: Listening Written examination: 45 Minutes 20% of qualification | 45 marks | |
| <ul style="list-style-type: none"> • Listening comprehension tasks with fixed written responses Learner are not permitted to use a dictionary in any part of the assessment. | | |
| Unit 4: Reading and Writing Written examination: 1 hour 3 Minutes 35% of qualification | 70 marks | |
| <ul style="list-style-type: none"> • Reading comprehension tasks • Translation from Spanish into Cymraeg/English • A writing task in response to simple and familiar stimuli Learner are not permitted to use a dictionary in any part of the assessment. | | |

Cerdd TGAU

[Jazz? Roc ? Pop ? Clasurol ? Gwerin ?](#)

[Mae rhywbeth at glust bawb ar y cwrs TGAU!](#)

[Nodau'r cwrs:](#)

- cynnig ystod o brofiadau cerddorol i bob disgybl
- datblygu sgiliau gwerthuso, perfformio a chyfansoddi/trefnu
- ennyn ymateb ddeallus beirniadol i gerddoriaeth
- rhoi cyfle i bob unigolyn gymryd rhan mewn gweithgaredd cerddorol o fewn a thu allan i'r ysgol
- galluogi disgyblion i gyfansoddi / trefnu'n unigol mewn arddull draddodiadol neu gyfoes

Mae pedwar maes astudio ar y cwrs TGAU sef Ffurf a dyfeisiau cerddorol, Cerddoriaeth ar gyfer Ensemble, Cerddoriaeth Ffilm a Cherddoriaeth Boblogaidd.

[Cewch gyfle i:](#)

- gymryd rhan mewn côr a cherddorfa dosbarth, yn ogystal â pherfformio'n unigol
- gyfansoddi/trefnu gan ddefnyddio allweddellau/offerynnau eraill, a hefyd argraffu'ch cerddoriaeth yn broffesiynol ar feddalwedd fel Sibelius, Flat.io a Garageband
- wrando ar amrywiaeth eang o gerddoriaeth, a mynegi barn a chyfiawnhau safbwyntiau arnynt.
- ddatblygu'ch sgiliau dadansoddi, ac adnabod manylion cyfansoddi ac arddull

[Sut mae'r cwrs yn cael ei asesu ?](#)

| | | |
|----------------------|-------|------------------------------|
| Asesiad dan Reolaeth | 32.5% | Asesu sgiliau Perfformio |
| Asesiad dan Reolaeth | 32.5% | Asesu sgiliau Cyfansoddi |
| Arholiad | 35% | Sy'n asesu sgiliau Gwerthuso |
| | | Un Haen: A* - G |

Music GCSE

Jazz? Rock ? Pop ? Classical ? Folk ?

This GCSE course has something for everyone!

Aims of the course:

- to offer a range of musical experiences to every pupil
- to develop skills in evaluating, performing, composing/arranging
- to encourage an intelligent, analytical response to music
- to give every individual an opportunity to participate in a musical activity both inside and outside school
- to enable pupils to compose/arrange on their own in traditional or modern styles

There are four areas of study on the GCSE course namely Musical Form and Devices, Music for Ensemble, Film Music and Popular Music.

You will have the opportunity to:

- participate in class choir and orchestra as well as performing as an individual
- compose/arrange using keyboards/other instruments, and also print your compositions professionally on different software such as Sibelius, Flat.io and Garageband
- listen to a wide variety of music – being able to develop analytical skills
- develop the ability to recognise various styles and details of compositions

How is the course assessed?

| | | |
|-----------------------|-------|--------------------|
| Controlled Assessment | 32.5% | Performing skills |
| Controlled Assessment | 32.5% | Composition skills |
| Examination | 35% | Evaluation skills |
| | | One Tier: A*- G |

TGAU Drama

Bydd cymhwyster CBAC TGAU Drama yn eich cefnogi i:

- Archwilio dramâu sydd wedi'u creu a'u perfformio gan bobl eraill a datblygu eu tonnau drama ei hunain
- Meithrin dealltwriaeth o amrywiaeth o dechnegau, ffurfiau, arddulliau, genres, a chyd destunau
- Adfyfrio ar eich gwaith eich hunain, ei fireinio a'i werthuso
- Archwilio amrywiaeth, hunaniaeth a diwylliant
- Darganfod ac archwilio eich sgiliau perfformio a/neu ddylunio

Beth fyddaf yn ei astudio?

Bydd y cymhwyster TGAU Drama yn eich galluogi i archwilio ac ymateb i ysgogiadau, creu ac adfyfrio ar eich gwaith eich hun, datblygu eich creadigrwydd eich hun a mynd i'r afael a llawer o wahanol arddulliau theatr. Byddwch hefyd yn cael cyfle i feithrin eich dealltwriaeth o actio cyfarwyddo dylunio a theatr dechnegol.

Sut byddaf yn cael fy asesu?

Uned 1 - Dyfeisio Theatr

Asesiad di-arholiad ymarferol
40% o'r cymhwyster: 96 marc

Uned 2 - Perfformiad o Destun

Asesiad di-arholiad ymarferol
30% o'r cymhwyster: 72 marc

Uned 3 - Dehongli Theatr

Math o Asesiad: Arholiad digidol ar-sgrin (2 awr)
30% o'r cymhwyster: 72 marc

GCSE Drama

The WJEC GCSE Drama qualification will support you to:

- Explore drama created and performed by other people to help develop your own talents
- Gain understanding of a range of techniques, forms, styles, genres and contexts
- Reflect on, evaluate and refine your work
- Explore diversity, identity and culture
- Discover and explore your performance and/or design skills

What you will study

The GCSE Drama qualification will allow you to explore and respond to stimuli, create and reflect on your own work, develop your own creativity and engage with many different styles of theatre.

You will also have the opportunity to build on your understanding of acting, directing, design and technical theatre.

How will you be assessed?

Unit 1 – Devising Theatre

Practical non-exam assessment

40% of qualification: 96 marks

Unit 2 – Performance from a Text

Practical non-exam assessment

30% of qualification: 72 marks

Unit 3 – Interpreting Theatre

Assessment type: On-screen examination (2 hours)

30% of qualification: 72 marks

TGAU Cyfryngau Digidol a Ffilm

[Pam dewis TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol?](#)

Nid yw'r cyfryngau ar gyfer adloniant yn unig; mae'n helpu i siapio'r gymdeithas rydyn ni'n byw ynddi. Mae pob post ar y cyfryngau cymdeithasol, gemau fideo a rhaghysbysebion ffilm yn cyfleu neges i gynulleidfaedd ledled y byd. Drwy astudio TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol, byddwch yn cael yr offer i ddeall y negeseuon hyn ac yn ymchwilio i sut mae'r diwydiant cyfryngau yn gweithio. Mae'r cwrs wedi'i lunio i'ch galluogi i archwilio testunau cyfryngau cyfoethog a diddorol yn ogystal â chyfleoedd i ddatblygu sgiliau creadigol a thechnegol.

[Beth fyddaf yn ei astudio?](#)

Mae'r cymhwyster TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol yn cynnwys un uned arholiad a dwy uned asesiad di-arholiad.

UNED 1 – Teitl Uned 1 yw Archwilio Materion a Chysyniadau Allweddol. Yn yr uned hon, byddwch yn astudio pâr o ffilmiau (un ffilm o Gymru ac un ffilm fyd-eang). Byddwch yn edrych ar y berthynas rhwng ffilmiau a'u cynulleidfaedd ac yn dadansoddi iaith ffilm. Byddwch hefyd yn astudio cysyniadau allweddol a sut mae ystyr yn cael ei greu mewn gemau fideo, newyddion ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

UNED 2 – Teitl Uned 2 yw Strategaethau Dosbarthu ac Arddangos Diwydiannau Ffilm a Chyfryngau Digidol yng Nghymru. Yn yr uned hon, cewch gyfle i ymchwilio i sut mae cynhyrchion cyfryngau yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu, eu dosbarthu a'u harddangos i gynulleidfaedd targed. Byddwch yn cael y dasg o ddylunio eich strategaethau dosbarthu ac arddangos eich hun ar gyfer cynnyrch cyfrwng digidol a ffilm newydd.

UNED 3 – Teitl Uned 3 yw Creu Cynnwys Ffilm a Chyfryngau Digidol. Mae'r uned hon yn caniatáu i chi arddangos eich creadigrwydd. Byddwch yn cael brieff i greu eich cynnwys ffilm a chyfryngau digidol eich hun. Mae'r uned hon yn eich anog i ddatblygu a chymhwyso eich sgiliau ac i adfyfrio ar eich proses creadigol.

[Sut byddaf yn cael fy asesu?](#)

70% Asesiad Di-Arholiad / 30% Arholiad.

UNED 1 – Mae Uned 1 yn cael ei hasesu drwy arholiad digidol ar-sgrin. Mae'r arholiad yn cyfrif am 30% o'r cymhwyster cyffredinol ac mae'n werth 60 marc.

UNED 2 – Asesiad di-arholiad yw Uned 2. Mae'n cyfrif am 30% o'r cymhwyster cyffredinol ac mae'n werth 72 marc.

UNED 3 – Asesiad di-arholiad yw Uned 3 hefyd. Mae'n cyfrif am 40% o'r cymhwyster cyffredinol ac mae'n werth 96 marc.

[Pa sgiliau byddaf yn eu datblygu?](#)

Yn ogystal â meithrin gwybodaeth dreiddgar am y ffordd y mae diwydiannau'r cyfryngau yn gweithio, mae'r cymhwyster TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol yn eich galluogi i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys:

- Sgiliau dadansoddol
- Creadigrwydd
- Meddwl yn feirniadol
- Llythrennedd cyfryngol
- Cynllunio a threfnu
- Ymchwil
- Sgiliau technegol

[Gyrfaedd ym maes Ffilm a Chyfryngau Digidol](#)

Mae'r cymhwyster hwn yn darparu sylfaen ragorol ar gyfer astudio Ffilm a'r Cyfryngau ar lefel Safon Uwch. P'un aydych chi'n bwriadu mynd i'r brifysgol neu'n syth i'r gweithle, mae'r sgiliau a ddatblygir ar y cwrs hwn yn agor drysau i amrywiaeth eang o lwybrau gyrfa. Gyda llwyfannau a thechnolegau newydd yn datblygu drwy'r amser, mae'r diwydiant cyfryngau yn esblygu'n gyson a all ei wneud yn lle cyffrous a dynamig iawn i weithio. Mae'r rhestr o rolau swyddi yn y diwydiant cyfryngau yn helaeth, ond gall rhai opsiynau gynnwys: Animeiddiwr, darlledwr, gweithredwr camera, crëwr cynnwys, cyfarwyddwr, golygydd, dylunydd gemau, newyddiadurwr, cynhyrchydd cerddoriaeth, cynhyrchydd, sgriptiwr ffilmiau, technegydd sain, rheolwr cyfryngau cymdeithasol, artist effeithiau gwledol.

GCSE Digital Media and Film

Why choose Digital Media and Film?

The media is not just for entertainment; it helps shape the society we live in. All social media posts, video games and film trailers communicate a message to audiences around the world. By studying GCSE Digital Media and Film, you will be given the tools to understand these messages and investigate how the media industry works. The course is designed to allow you to explore rich and engaging media texts as well as opportunities to develop creative and technical skills.

What will I study?

The GCSE Digital Media and Film qualification is made up of one exam unit and two Non-Examination Assessment (NEA) units.

UNIT 1 – Unit 1 is titled Exploring Key Concepts and Issues. In this unit, you will study a pair of films (one Welsh film and one global film). You will look at the relationship between films and their audiences and analyse film language. You will also study key concepts and how meaning is created in video games, online news and social media.

UNIT 2 – Unit 2 is titled Distribution and Exhibition Strategies of Digital Media and Film Industries in Wales. In this unit, you will have the opportunity to investigate how media products in Wales are produced, distributed and exhibited to target audiences. You will be tasked with designing your own distribution and exhibition strategies for a new digital media and film product.

UNIT 3 – Unit 3 is titled Creating Digital Media and Film Content. This unit allows you to showcase your creativity. You will be given a brief to create your own digital media and film content. This unit encourages you to develop and apply your skills and reflect on your creative process.

How will I be assessed?

70% Non-Exam Assessment / 30% Exam

UNIT 1 – Unit 1 is assessed through an onscreen digital examination. The exam makes up 30% of the overall qualification and is worth 60 marks.

UNIT 2 – Unit 2 is a non-examination assessment (NEA). It makes up 30% of the overall qualification and is worth 72 marks.

UNIT 3 – Unit 3 is also a non-examination assessment (NEA). It makes up 40% of the overall qualification and is worth 96 marks.

What skills will I develop?

As well as gaining insightful knowledge about the way media industries work, the GCSE Digital Media and Film qualification allows you to develop a range of transferrable skills, including:

- Analytical skills
- Creativity
- Critical thinking
- Media literacy
- Planning and organisation
- Research
- Technical skills

Careers in Digital Media and Film

This qualification provides an excellent foundation for further study of Media or Film at A Level. Whether you're planning on going to university or heading straight into the workplace, the skills developed on this course open doors to a wide range of career pathways. With new platforms and technologies developing all the time, the media industry is constantly evolving which can make it a very exciting and dynamic place to work. The list of job roles in the media industry are extensive, but some options may include: Animator, broadcaster, camera operator, content creator, director, editor, game designer, journalist, music producer, producer, screenwriter, sound technician, social media manager, visual effects artist.

Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi

[Dyfarniad Lefel 1 / 2](#)

Mae chwaraeon yn y DU wedi cael canlyniadau anhygoel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda Thimau Olympaidd a Pharalympaidd Prydain yn gorffen yn ail yn y tablau medalau yn Rio 2016, a'r DU yn parhau i gynnal rhai o ddigwyddiadau chwaraeon mwyaf y byd. Mae UK Sport wedi nodi hyfforddi fel elfen allweddol o'r system perfformiad uchel yn y DU. Mae hyfforddi, ochr yn ochr â gwasanaethau allweddol eraill sy'n cefnogi perfformiad fel Meddygaeth Chwaraeon a Gwyddor Chwaraeon, Ffordd o Fyw Perfformiad ac Ymchwil ac Arloesi, yn chwarae rôl hanfodol o ran sicrhau llwyddiant parhaus athletwyr o Brydain.

Lluniwyd y Dyfarniad Galwedigaethol mewn Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi i gefnogi dysgwyr mewn ysgolion sydd am ddysgu am y sector galwedigaethol hwn a'i botensial o ran gyrfa neu astudiopellach. Mae ar ei fwyaf addas yn sylfaen i astudio pellach. Byddai unrhyw astudio pellach o'r fath yn rhoi cyfle i ddysgwyr feithrin amrywiaeth o sgiliau arbenigol a chyffredinol a fyddai'n eu helpu wedyn i symud i fyd cyflogaeth.

[Strwythur yr unedau](#)

Dyfarniad Lefel 1 / 2 mewn Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi

Rhaid i ddysgwyr gyflawni tair uned:

Uned 1 Ffitrwydd ar gyfer chwaraeon

Uned 2 Gwella perfformiad mewn chwaraeon

Uned 3 Egwyddorion Hyfforddi

Sport and Coaching Principles

Level 1 / 2 Award

Sport in the UK has achieved incredible results in recent years, with the British Olympic and Paralympic Teams both finishing second in the medal tables in Rio 2016, and the UK continuing to host some of the world's biggest sporting events. UK Sport has identified coaching as a key element of the high-performance system in the UK. Coaching, alongside other key performance support services such as Sports Medicine and Sports Science, Performance Lifestyle and Research and Innovation, plays a crucial role in ensuring the ongoing success of British athletes..

The Vocational Award in Sport and Coaching Principles has been designed to support learners in schools who want to learn about this vocational sector and the potential it can offer them for their careers or further study. It is most suitable as a foundation for further study. This further study would provide learners with the opportunity to develop a range of specialist and general skills that would support their progression to employment.

Structure of units

Level 1 / 2 Award in Sport and Coaching Principles

Learners must complete all three units:

- Unit 1 Fitness for Sport
- Unit 2 Improving Sporting Performance
- Unit 3 Coaching Principles

TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd

Beth fyddaf yn ei astudio?

Bydd y fanyleb Addysg Gorfforol ac Iechyd yn eich galluogi i wneud cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer fel eich bod yn gallu cymhwyso eich dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n sail i iechyd, llesiant, chwaraeon a gweithgarwch corfforol a defnyddio'r wybodaeth hon i wella perfformiad.

Uned 1: Egwyddorion Addysg Gorfforol ac Iechyd

Arholiad Digidol:

1 awr 30 munud - cael ei farcio gan CBAC

- 40% o'r cymhwyster
- 80 marc
- Cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, ymatebion cyflym, atebion byr ac estynedig

Uned 2: Perfformio y Hyfforddiant Personol

Asesiad di-arholiad: cael ei asesu'n fewnol gan eich athro, a'i gymedroli'n allanol drwy ymweliad gan gymedrolwr CBAC

- 60% o'r cymhwyster
- 120 marc Asesiad di-arholiad ymarferol:
- Perfformio mewn un gamp neu weithgaredd corfforol o'r rhestr gymeradwy
- Perfformio mewn ail gamp neu weithgaredd corfforol neu ddarparu hyfforddiant mewn camp neu weithgaredd corfforol o'r rhestr gymeradwy
- Cynllunio, cyflawni a gwerthuso gweithgaredd hyfforddiant personol dros 8-10 wythnos ar gyfer camp neu weithgaredd corfforol o'r rhestr gymeradwy

Pa sgiliau fyddaf yn eu datblygu?

Drwy astudio Addysg Gorfforol ac Iechyd, byddwch yn gallu gwneud y canlynol:

- Perfformio'n effeithiol mewn gwahanol chwaraeon a gweithgareddau corfforol drwy ddatblygu sgiliau a thechnegau a thrwy ddewis a defnyddio tactegau, strategaethau a/neu syniadau cyfansoddiadol
- Dadansoddi perfformiad corfforol a dewis strategaethau ac ymyriadau priodol ar gyfer datblygu a gwella
- Meddwl yn feirniadol ac yn adfyriol am eich perfformiad eich hun a pherfformiad eraill
- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o iechyd, llesiant chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'r cysylltiadau sy'n bodoli rhyngddynt
- Deall y ffactorau sy'n effeithio ar lefelau gweithgarwch a'r berthynas ag iechyd a llesiant corfforol, cymdeithasol ac emosïynol
- Deall y dylanwadau cymdeithasol-ddiwylliannol ar gyfranogiad, a'r datblygiadau cyfoes ym maes chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Gyrfaoedd ym maes Addysg Gorfforol ac Iechyd

Mae'r cymhwyster hwn yn darparu sylfaen ragorol ar gyfer astudio CBAC UG a Safon Uwch Addysg Gorfforol a CBAC Lefel 3 Chwaraeon. Bydd hefyd yn darparu cwrs astudio boddhaus a gwerthfawr i chi os ydych chi'n dewis peidio astudio ymhellach. Yn bwysig, bydd astudio TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd yn datblygu llawer o sgiliau trosglwyddadwy gan gynnwys cyfathrebu, sgiliau cyflwyno a pherfformio, gweithio mewn tîm, arwain, canolbwyntio, mireinio a hunanhyder.

Physical Education and Health GCSE

What will I study?

